

CARNE, Syr EDWARD (c. 1500 - 1561), llysgennad

Enw: Edward Carne

Dyddiad geni: c. 1500

Dyddiad marw: 1561

Plentyn: Cecil Wogan (née Carne)

Plentyn: Thomas Carne

Rhiant: Howel Carne

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llysgennad

Maes gweithgaredd: Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Arthur Herbert Dodd

Mab Howel Carne, Pontfaen, sir Forgannwg, ac yn disgyn o dywysogion Gwent. Cafodd ei addysg yn Rhydychen, gan raddio'n B.C.L. yn 1519 a D.C.L. yn 1524; a daeth yn bennaeth Greek Hall. Yn 1530 fe'i hanfonwyd i Rufain i gyflwyno rhesymau'r brenin Harri VIII dros beidio ag ymddangos ei hunan pan benderfynwyd fod ei gyngaws am 'ysgariad' i gael ei drin yno. Gan i'r pab wrthod derbyn Carne fel 'excusator,' apeliodd yntau 'oddi wrth esgob Rhufain sydd heb wybod y manylion ac sy'n ofni rhag yr ymerodryddion, at esgob Rhufain sydd yn eu gwybod ac sydd hefyd yn fwy rhydd' (1534), a dychwelodd i Loegr i fod yn brysur yn y gwaith o gario allan fesurau ad-daliad Harri ar Eglwys Rufain; bu'n un o'r comisiynwyr a fu'n difodi'r mynachdai, a phrynodd abaty Ewenni yn gartref iddo'i hun. Aeth ar genhadaeth i Brussels (1538-9) a Cleves (1539), pan oedd Harri yn ceisio gwraig arall, ac i Ffrainc yn 1540 i fynegi'r newid ym mholisi'r brenin pan gwmpodd Thomas Cromwell, gan ddychwelyd i'r Iseldiroedd yn 1541 i fod yn llysgennad trigiannol. Gwobrwyodd Harri ef trwy ei wneud yn ganghellor Salisbury a rhoddi iddo fywoliaeth segur yng Nghymru hefyd; fe'i cysurwyd, fodd bynnag, pan gafodd gan y pab Clement VII faddeueb i fod mewn grym mewn cysylltiad â chapel y Groes Sanctaidd yn y Bontfaen yn ystod bywyd Carne a gwnaeth yr ymherodr Charles V ef yn farchog. Wedi pasio Deddf Uno Cymru a Lloegr fe'i dewiswyd yn siryf cyntaf Morgannwg (1542). Bu'n ymladd yn y cyrch ar Boulogne yn 1544. ac yna aeth ar genhadaeth arall i'r Iseldiroedd.

Yn ystod teyrnasiad Edward VI yr oedd mewn neilltuedd ar wahân i wasanaeth ar Gyngor Goror Cymru (c. 1551), a chael gofyn ei gyngor ar brydiau ar faterion diplomyddol. Pan oedd Mari yn teyrnasu bu'n siryf Morgannwg am ail dymor (1554), a thra bu'n aelod seneddol dros sir Forgannwg (1554) digwyddodd iddo fod yr aelod seneddol cyntaf o Gymru y rhoddyd mesur seneddol iddo i'w ystyried ('committal'); yr oedd hefyd yn aelod o'r comisiwn a ddyfarnodd i Cromwell weithredu'n anghyfreithlon pan gymerth esgobaeth Bonner oddi wrtho. Bu ar neges dros yr ymherodr (1553) a dilynwyd hyn gan neges lysgenhadol arall i Rufain; efe oedd yr unig llysgennad annibynnol dros y môr yn ystod teyrnasiad Mari. Ychydig cyn i'r frenhines farw gofynnodd am gael dod yn ei ôl, a threfnwyd i Thomas Goldwell, esgob Llanelwy, gymryd ei le - eithr amharwyd ar y trefniant hwn gan farwolaeth Mari. Hyd at fis Chwefror 1559, pan alwyd amdano'n ôl, yr oedd yn parhau i fynegi teimladau da Rhufain a Sbaen tuag at Loegr ac yn cyhoeddi rhybuddion yn erbyn Ffrainc. Gwrthododd y pab roddi trwydded deithio iddo, eithr yn hytrach ei ddewis yn rheolwr yr 'English Hospital' yn Rhufain. Cyn ei farw yr oedd wedi colli ffafr yr awdurdodau a Thomas Goldwell wedi ei wneuthur yn rheolwr yr 'Hospital' yn ei le. Rhoes ei gyfeillion Geoffrey Vaughan a Thomas Freeman dabled yn yr 'Hospital' i gofio amdano (gweler y geiriad yn *Archæologia Cambrensis*, II, iv, 131; Strype, *Annals*, I, i, 51; [Clark, Limbus](#), 374-8). Difwynwyd y tabled pan feddiannwyd Rhufain gan y Ffrancwyr yn 1849, ond fe'i hadferwyd trwy gymorth [John Montgomery Traherne](#), canghellor Llandaf. Awgryma'r geiriad nad oedd cadw Carne yn Rhufain am gyhyd o amser ddim yn gwbl yn groes i'w ddymuniad; gallai o'r herwydd barhau'n deyrngar i Rufain heb golli ei hawl i'w ystadau; aeth y rhain i'w fab THOMAS CARNE, a fu'n aelod seneddol dros sir Forgannwg ac yn siryf deirgwaith, er nad oedd yn Brotestant.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, ix, 134-5, a'r gweithiau a enwir yno

J. M. Cleary *The Illtydian*, xix, 186-92, xxi, 156-71

[*Cardiff Naturalists' Society*](#)

Letters and Papers, Foreign and Domestic, of the Reign of Henry VIII

Calendar of State Papers, Foreign Series, 1588-1589, 162, 333

Acts of the Privy Council of England, 1554-1570

J. Strype, *Ecclesiastical Memorials. Relating chiefly to religion, and its reformation, under the reigns of King Henry VIII King Edward VI and Queen Mary the First. with the appendixes containing the original papers, records, etc.* (Llundain 1816), ii a iii
Annals and Lives of the Primate of Elizabeth's Reign, i
Reports of the Historical Manuscripts Commission, Cecil, i, 182-3
Roger Bigelow Merriman, *Life and letters of Thomas Cromwell* (Rhydychen 1902), i, 299-300; ii, 182, 187, 208
Burnet, *The History of the Reformation of the Church of England. (A Collection of Records and Original Papers ... referred to in the ... History.)*, II, ii, app. xxxii
Catholic Record Society, xxii, 94 a n.
Archaeologia Cambrensis, 1849 (316), 1890 (81-104)
A. H. Dodd, '[Wales' Parliamentary apprenticeship \(1536-1625\)](#)' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1942, 9
W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 95-6
J. H. Pollen, *The English Catholics in the Reign of Queen Elizabeth. A study of their politics, civil life, and government. 1558-1580* (Llundain 1920)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Sir Edward Carne](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7526531](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

